

Bydd Barddas yn cynnal ei thrydedd Gwyl Gerallt ar Fai'r 27ain gyda diwrnod cyfan o weithgareddau, lansiadau, cyflwyniadau ac adloniant. Aberystwyth fydd cartre'r wyl eleni gyda sesiynau'r dydd yn cael eu cynnal yn Yr Hen Goleg. Ymysg y beirdd sy'n annerch, bydd y Bardd Cenedlaethol, y Prifardd Ifor ap Glyn a'r Prif Lenor yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni, Eurig Salisbury. Bydd Prifardd Cadeiriol yr Eisteddfod honno, Aneirin Karadog yn ymuno ag Eurig ar gyfer sesiwn hwyliog, Pwnco Clera, a fydd yn cael ei chynnwys yn eu podlediad misol yn trafod barddoni, Clera.

Bydd yr wyl hefyd yn gyfle i groesawu aelodau newydd i'r Gymdeithas Gerdd Dafod, cymdeithas fywiog sy'n cynyddu'n fisol gydag aelodau ym mhob cwr o'r byd. Bydd meuryn Y Talwrn ar Radio Cymru, y Prifardd Ceri Wyn Jones, yr awdur poblogaidd Dewi Prysor a Bardd Plant Cymru, Anni Llyn yn cynrychioli cylchgrawn Barddas, gyda'r pedwar colofnydd yn cael cyfle i ddweud eu dweud ar y bocs sebon.

Gyda thair o gyfrolau Cyhoeddiadau Barddas yn chwech uchaf, siart gwerthwyr gorau'r Cyngor Llyfrau ym mis Ebrill, mae'r gymdeithas yn edrych ymlaen i lansio dwy gyfrol newydd arall yn yr wyl, sef casgliad o gerddi gan y Prifardd Hywel Griffiths, Llif Coch Awst a chyfrol gyntaf o gerddi Elan Grug Muse, Ar Ddisberod. Grug yw'r pumed bardd i gyhoeddi o dan faner Tonfedd Heddiw, wedi i Guto Dafydd, Llyr Gwyn Lewis, Gruffudd Owen ac Elis Dafydd gyhoeddi eu cerddi yn y gyfres hon sy'n rhoi llwyfan i leisiau newydd. Gyda'i chyfrol gyntaf o farddoniaeth, Hel Hadau Gwawn newydd gael ei chyhoeddi, bydd Annes Glynn hefyd yn darllen ei cherddi yn yr Hen Goleg.

Bydd lansiad Ar Ddisberod, cyfrol Elan Grug Muse, un o olygyddion cylchgrawn Y Stamp, yn agor sesiwn yr hwyr yn nhafarn Y Cwps. Bydd Elis Dafydd yn ymuno â Grug, ac Elinor Wyn Reynolds yn sgwrsio â'r ddau fardd. Ac i gloi'r wyl, bydd noson o adloniant, Beirdd a Chantorion gyda Gai Toms a Gildas yn canu rhwng cyfraniadau'r beirdd.

Meddai Cadeirydd Barddas, y Prifardd Dafydd John Pritchard : "Sefydlwyd Gwyl Gerallt o dan yr enw hwn i goffau Gerallt Lloyd Owen, un o'n beirdd mawr a fu ynghanol hanes a gweithgaredd Barddas o'r cychwyn cyntaf ac ar hyd y blynyddoedd wedi hynny. Ond, fel y byddai Gerallt ei hun yn awyddus iddi fod, gwyl sy'n dathlu barddoniaeth heddiw ydi hon yn anad dim, ac yn rhan o weledigaeth y Gymdeithas Gerdd Dafod i feithrin talentau'r dyfodol.

Bydd hi'n wyl genedlaethol gyda blas lleol hefyd, a bydd Aberystwyth yn amlwg iawn fel rhan o'r arlwy eleni. Gobeithio y daw pobl yn eu lluoedd felly i fwynhau diwrnod amrywiol a difyr dros ben"

Am wybodaeth bellach ac unrhyw ymholiadau, cysyllter â [Iola Wyn](#), Cydlynnydd Barddas.